# GTB ar Ofal Lliniarol a Hosbisau 8 Gorffennaf 2021 8:30-9:30yb

# CPG Hospice and Palliative Care 8 July 2021 8:30-9:30am

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyntaf I Inaugural Annual General Meeting

## Cofnodion | Minutes

### Yn bresennol | Attendance

| | |
|---|---|
| Mabon ap Gwynfor AS | Huw Irranca-Davies AS |
| Rhun ap Iorwerth AS | Mark Isherwood AS |
| Peredur Owen Griffiths AS | Darren Millar AS |
| Altaf Hussain AS | |

| | |
|---|---|
| Jon Antoniazzi, Macmillan | Tracy Jones, Tŷ Hafan |
| Janette Bourne, Gofal mewn Galar Cruse | J Phillips (ar ran Jayne Bryant AS) |
| Dominic Carter, Hospice UK | Trystan Pritchard, Hosbis Dewi Sant |
| Ryland Doyle (ar ran Mike Hedges AS) | Gethin Rhys, Cytûn |
| Catrin Edwards, Hospice UK | Emma Saysell, St David's Hospice Care |
| Lowri Griffiths, Marie Curie | Rhys Taylor (ar ran Jane Dodds AS) |
| Steve Ham, Cadeirydd y Bwrdd Gofal Diwedd Oes | Grant Usmar, Hosbis y Cymoedd |
| Iwan Hughes, y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol | Georgina Webb, Ceidwadwyr Cymreig |
| Laura Hugman, Sefydliad Paul Sartori | Lynsey Wheeler, Hosbis y Cymoedd |
| Kim Jones, Hosbis y Cymoedd | |

### Ymddiheuriadau | Apologies

| | |
|---|---|
| Janet Finch-Saunders AS | Andy Goldsmith, Tŷ Gobaith/Hope House |
| Tom Davies, Macmillan | Marika Hills, Macmillan |
| Bethan Edwards, Marie Curie | Iain Mitchell, St Kentigern |

### Croeso gan y Cadeirydd blaenorol, a sefydlu'r Grŵp Trawsbleidiol ar Ofal Lliniarol a Hosbisau ar gyfer y Chweched Senedd

- Croesawodd Mark Isherwood aelodau'r grŵp i gyfarfod cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Ofal Lliniarol a Hosbisau yn ystod y Chweched Senedd.
- Cyflwynodd Catrin Edwards adroddiad gwaddol y Grŵp Trawsbleidiol ar Ofal Lliniarol a Hosbisau yn ystod y Bumed Senedd, gan nodi llwyddiannau'r grŵp, y gwaith craffu sy'n parhau a'r gwaith craffu sydd yn yr arfaeth, yn ogystal â'r gwaith a drosglwyddwyd gan y grŵp hwnnw y bydd y grŵp presennol o bosibl am ymdrin ag ef.

Company Limited by Guarantee, Registered in England and Wales No. 2751549,
Charity registered in England and Wales No. 1014851 and in Scotland No. SC041112. VAT No. 731 304476.

**Cam gweithredu:** Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn iddi gydnabod adroddiad y grŵp trawsbleidiol yn ystod y Bumed Senedd, sef 'Pa rôl all rhaglen Cymru Garedig Llywodraeth Cymru ei chwarae wrth gynyddu capasiti a gwydnwch mewn cymunedau yn ystod Covid-19 ac ar ôl hynny? 2020-21', ac ymateb iddo.

- Cyflwynodd CE eiriad arfaethedig datganiad o ddiben y Grŵp Trawsbleidiol ar Ofal Lliniarol a Hosbisau yn ystod y Chweched Senedd, fel y mae wedi'i gofrestru â'r Swyddfa Gyflwyno. Awgrymodd Tracy Jones y dylai'r grŵp ddiwygio'r datganiad i nodi mai ei nod yw gwella 'gofal lliniarol a gofal diwedd oes'. Cafwyd trafodaeth ynghylch cynnwys 'galar' yn benodol yn y datganiad o ddiben a gofrestrwyd. Er bod galar yn rhan greiddiol o ofal lliniarol, penderfynwyd y byddai cynnwys cyfeiriad penodol yn golygu bod diben y grŵp hwn yn gorgyffwrdd yn ormodol â diben grŵp trawsbleidiol arall. Cytunodd y grŵp ar y geiriad a ganlyn:

  > 'I gynnal a datblygu dealltwriaeth a diddordeb Aelodau o'r Senedd mewn materion sy'n effeithio ar y bobl y mae angen gwasanaethau gofal lliniarol a hosbisau arnynt er mwyn gwella gofal lliniarol a gofal diwedd oes i bawb yng Nghymru.'

- Cafwyd cadarnhad gan bawb a oedd yn bresennol eu bod am fod yn aelodau o'r Grŵp Trawsbleidiol ar Ofal Lliniarol a Hosbisau yn ystod y Chweched Senedd. Cadwodd CE restr o enwau Aelodau o'r Senedd a sefydliadau allanol a oedd wedi nodi eu hymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod hwn ond a oedd yn awyddus i gofrestru fel aelodau o'r grŵp trawsbleidiol.
- Ethol swyddogion fel rhan o'r cyfarfod cyffredinol blynyddol:
  - Cafodd Mark Isherwood ei enwebu fel Cadeirydd gan Darren Millar, gyda Huw Irranca-Davies, Mabon ap Gwynfor, Altaf Hussain a Rhun ap Iorwerth yn eilio'r enwebiad. Cafodd Mark Isherwood ei ethol yn Gadeirydd.
  - Cynigiodd Catrin Edwards ei hun fel Ysgrifennydd, gyda Mark Isherwood yn eilio. Cafodd Catrin Edwards ei hethol yn Ysgrifennydd.

**Cam gweithredu:** CE i gyflwyno'r papurau cofrestru i'r Swyddfa Gyflwyno.

## Blaenoriaethau ar gyfer gofal lliniarol yng Nghymru 2021: y wybodaeth ddiweddaraf – Steve Ham, Cadeirydd y Bwrdd Gofal Diwedd Oes

Eglurodd Steve Ham y bydd gwaith y Bwrdd Gofal Diwedd Oes presennol yn parhau hyd nes y bydd y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Diwedd Oes yn cael ei chyflwyno o dan y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol. Mae gwaith y Bwrdd yn parhau ar y materion a ganlyn:

- Gweithio gyda hosbisau plant ar waith ymchwil ynghylch cyffredinrwydd a chymhlethdod anghenion gofal lliniarol pediatrig yng Nghymru;
- Mae'r Bwrdd wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i adolygu cyllid ar gyfer hosbisau. Mae grŵp llywio yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd, gyda'r nod o gwblhau'r gwaith erbyn yr hydref;
- Sefydlu grŵp llywio ar gyfer y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Diwedd Oes, sy'n cwrdd y mis hwn;
- Llunio datganiad o ansawdd ar gyfer gofal diwedd oes;
- Gwerthuso gofal diwedd oes – adolygiad o'r cynnydd yn erbyn y weledigaeth a amlinellwyd yn Adroddiad Sugar yn 2009. Bydd y gwerthusiad hefyd yn gweithredu fel datganiad gwaddol gan y Bwrdd Gofal Diwedd Oes presennol;
- Cyllid ar gyfer hosbisau i ymdrin â'r argyfwng COVID, gan arwain at gydweithio'n agosach â hosbisau elusennol;
- Goruchwylio'r gwaith o lunio'r Fframwaith Cenedlaethol ynghylch Galar, gan gynnwys dyrannu cyllid o dan y fframwaith hwn unwaith y bydd wedi'i gwblhau;

- Goruchwylio rhaglen Cymru Garedig. Mae Macmillan wedi darparu cyllid ar gyfer rôl Rheolwr y Rhaglen, a fydd yn helpu i ddwyn y gwaith hwn yn ei flaen;
- Llunio achos busnes dros ddigideiddio Cynlluniau Gofal Ymlaen Llaw;
- Llunio system mesur canlyniadau mewn partneriaeth â Marie Curie, gyda gweithdy wedi'i drefnu yn ystod yr hydref. Mae'r gwaith ar y mesurau profiad yr adroddir amdanynt gan y claf (PREMs, neu Patient Reported Experience Measures, yn Saesneg) yn mynd rhagddo;
- Gweithredu'r System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru (CaNISC, neu'r Cancer Network Information System Cymru, yn Saesneg) wedi'i huwchraddio;
- Digideiddio'r canllawiau ar gyfer Cymru gyfan, 'Penderfyniadau gofal ar gyfer dyddiau olaf oes';
- Cefnogi'r broses o recriwtio Meddyg Ymgynghorol Haen 4 ym maes Meddygaeth Liniarol Bediatrig, a fydd wedi'i leoli yng ngogledd Cymru

Trafodaeth

Gofynnodd Darren Millar AS am amserlen yr adolygiad o gyllid hosbisau; cafwyd cadarnhad gan SH fod disgwyl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau yn yr hydref 2021.

Nododd MI ei fod wedi arwain dadl yn ystod sesiwn olaf y Bumed Senedd ar gyllid cynaliadwy ar gyfer hosbisau plant, gan ychwanegu bod y cynnig hwn wedi denu cefnogaeth drawsbleidiol.

Nododd SH fod yr adolygiad o gyllid hosbisau yn mynd law yn llaw â'r gwaith ymchwil ar gyffredinrwydd ym maes gofal lliniarol pediatrig.

Nododd MI y caiff hosbisau eu cyllido yn bennaf gan fyrddau iechyd a bod amrywiaeth sylweddol yn y cyllid a ddyrannir gan fyrddau iechyd ledled y wlad; a yw'r byrddau iechyd a'r Ymddiriedolaethau yn trafod cyllido gofal lliniarol â'i gilydd? Cafwyd cadarnhad gan SH y bydd yr adolygiad o gyllid hosbisau yn trafod cysondeb ac amrywiaeth modelau gwasanaeth hosbisau.

Drwy'r adnodd sgwrsio, pwysleisiodd Trystan Pritchard y tensiynau parhaus sy'n wynebu hosbisau o ran trefniadau cyllido lleol â'r byrddau iechyd a'r cyfarwyddyd cenedlaethol.

## Profiad o ofal yn ystod pandemig: profiad teulu a phrofiad nyrs – Lynsey Wheeler and Kim Jones, Hosbis y Cymoedd

Rhoddodd Kim Jones, Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Clinigol yn Hosbis y Cymoedd, drosolwg o'i phrofiad ar y rheng flaen yn ystod y pandemig. Roedd y profiad hwn yn cynnwys:

- Symud tuag at gysylltu â phobl dros y ffôn yn y lle cyntaf, yn enwedig cleifion â chanser. Sylweddolodd nyrsys yn gyflym bod angen cynnal cyswllt wyneb yn wyneb â theuluoedd. Roedd hwn yn arbennig o berthnasol yn achos pobl sydd â dementia a'u gofalwyr, a oedd yn crefu am gyswllt o gofio bod nifer o wasanaethau eraill wedi'u tynnu'n ôl.
- Roedd cynnydd mewn gwaith achos o fewn y 14 o gartrefi gofal y mae'r hosbis yn eu cefnogi. Collodd rhai ohonynt dros un rhan o dair o'u preswylwyr. Bu nyrsys yn cefnogi pobl ar ddiwedd oes, gweithwyr yn y cartrefi gofal a theuluoedd y bobl a fu farw.
- Treuliodd yr Uwch-ymarferydd Nyrsio yn Ysbyty Aneurin Bevan gyfnod sylweddol o amser yn cyfathrebu dros y ffôn â theuluoedd ac anwyliaid y bobl o dan ei gofal ar y ward.
- Bu effaith ganlyniadol ar wasanaeth galar yr hosbis. Yn ogystal â'r niferoedd uwch o bobl sy'n galaru, mae'r bobl hyn yn galaru mewn cyd-destun cymhleth, gyda llawer o bobl o bosibl yn teimlo euogrwydd fel rhan o'u galar.

Rhannodd Lynsey Wheeler brofiad ei theulu o'r gofal a roddwyd iddynt ar ôl i'w mam farw o ganser y coluddyn yn ystod 2020. Daeth Anne adref o'r ysbyty gyda phecyn gofal llawn am chwe wythnos. Roedd hyn yn cynnwys gofal seibiant bob nos, wedi'i ddarparu'n rhannol drwy gyllid gofal iechyd parhaus ac yn rhannol wedi'i gyllido'n elusennol gan yr hosbis. Cafodd Lynsey gefnogaeth gan yr hosbis i fyw gyda'i phryderon o ran gofalu am ei mam gartref tuag at ddiwedd ei hoes, a oedd yn golygu y cawsant gyfle i dreulio amser gwerthfawr gyda'i gilydd tuag at y diwedd.

Diolchodd Lowri Griffiths a Liz Andrews i Lynsey am rannu ei hanes. Nododd LG y gwahaniaeth i deuluoedd pan fo gofal yn eu cofleidio. Dylid adrodd yn ôl am hyn i'r Bwrdd Gofal Diwedd Oes.

Gofynnodd J Phillips sut y mae'r hosbis yn rheoli gorflinder ymhlith staff. Atebodd KJ eu bod yn dîm bach sydd â rheolwyr cefnogol. “Camodd y gwasanaethau statudol yn ôl a bu'n rhaid i ni gamu i'r adwy”. Mae darparu goruchwyliaeth glinigol ar gyfer y tîm a chydweithwyr mewn cartrefi gofal wedi bod yn hanfodol.

## Llunio blaenraglen waith y Grŵp Trawsbleidiol ar Ofal Lliniarol a Hosbisau

Gwahoddodd CE aelodau'r grŵp i drafod a ddylai rhai o'r materion sydd wedi'u cynnwys yn y papurau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod, yn ogystal â materion y mae'r aelodau eu hunain yn arbenigo ynddynt, fod yn rhan o flaenraglen waith y grŵp trawsbleidiol yn ystod y flwyddyn nesaf.

**Cam gweithredu:** Yr aelodau i gysylltu â CE i rannu awgrymiadau.

Cyflwynodd CE bapur a rannwyd â'r grŵp cyn y cyfarfod, sy'n cynnwys cynnig i gynnal gwerthusiad manwl o brofiadau o ofal lliniarol yn y gymuned yn ystod y pandemig. Bwriad y gwaith hwn fyddai helpu i lywio unrhyw ymchwiliad – ar lefel Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU, ac ar lefel pwyllgorau'r Senedd – i effaith y pandemig ar bobl ac ar y sector iechyd a gofal, gan roi mewnwelediad i faes na fyddai, fel arall, yn cael sylw llawn gan bwyllgorau'r Senedd.

Cytunodd aelodau'r grŵp y byddai'r gwaith hwn yn ddefnyddiol, cyn rhannu awgrymiadau adeiladol.

Awgrymodd LG y dylai'r gwerthusiad manwl gael ei ymestyn i gynnwys profiadau o ofal diwedd oes mewn cartrefi gofal. Cytunodd Emma Saysell â hyn.

**Cam gweithredu:** CE i gysylltu â Fforwm Gofal Cymru i ymgysylltu ag aelodau'r fforwm.

Roedd Huw Owen yn cefnogi'r syniad o gynnal gwerthusiad manwl, gan nodi bod hwn yn gyfle i weithio ar y cyd â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Ddementia.

**Cam gweithredu:** CE a HO i ymchwilio i'r posibilrwydd o gydweithio.

Nododd Jon Antoniazzi y byddai'n ddefnyddiol cynnwys gwaith Macmillan, ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, ar ofalu am bobl ar ddiwedd oes fel rhan o'r gwerthusiad manwl.

Pwysleisiodd Rhun ap Iorwerth yr angen i symud yn gyflym ar y gwaith hwn tra bod atgofion pobl o'r gofal a gafwyd yn ffres.

Cytunodd DM y byddai gwerthusiad manwl yn helpu i nodi profiadau tebyg i'r rhai a rannwyd yn ystod y cyfarfod hwn.

Awgrymodd CE y byddai'n ddefnyddiol rhoi gwybod i Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am y gwerthusiad manwl arfaethedig. Cytunodd MI, gan ychwanegu y dylid rhannu adroddiad y grŵp trawsbleidiol yn ystod y Bumed Senedd ar raglen Cymru Garedig Llywodraeth Cymru hefyd.

**Cam gweithredu:** y Cadeirydd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i helpu i lywio’r gwaith manwl ar adroddiad y grŵp trawsbleidiol blaenorol.

## Unrhyw fusnes arall

Ni chodwyd unrhyw fusnes arall.

Bydd dyddiadau’r cyfarfodydd eraill eleni yn cael eu rhannu maes o law.